

Nodyn Briffio: Arglawdd Tan Lan

Diben

Darperir y nodyn hwn fel ymateb i ymholiad Llyr Gruffydd AS yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, ar 12 Tachwedd, am gostau atgyweiriadau yn Nhan Lan (Dyffryn Conwy). Gweler Atodiad 1 ar gyfer trawsgrifiad o'r ymholiad.

Y sefyllfa bresennol ac atgyweiriadau blaenorol yn Nhan Lan

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am warchod pobl a chartrefi sy'n wynebu'r perygl llifogydd mwyaf. Yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i ni ymgymryd â dull seiliedig ar risg yn y ffordd rydym yn defnyddio arian cyhoeddus, blaenoriaethu yn briodol a sicrhau bod penderfyniadau priodol ar fuddsoddiadau yn cael eu gwneud wrth ystyried ffactorau economaidd, technegol ac amgylcheddol. Mae'n rhaid i ni hefyd ddefnyddio dull cynaliadwy o reoli perygl llifogydd, ac archwilio cyfleoedd i alluogi ein tirwedd i addasu i newid hinsawdd gan weithio o fewn y cyllid sydd ar gael.

Teimlwyd yr effaith a gafodd stormydd y gaeaf diwethaf ar gymunedau ledled y wlad, ac rydym yn parhau i ddelio â'u canlyniadau, ochr yn ochr â'r heriau o addasu i effeithiau'r argyfwng COVID-19.

Yn ystod Storm Ciara ar benwythnos 7 Chwefror 2020, gwnaeth cynllun llifogydd Dyffryn Conwy lwyddo i amddiffyn eiddo yn Llanrwst a Threfriw rhag llifogydd gan afon Conwy. Fodd bynnag, gwnaeth lefel uchel yr afon, unwaith eto, dorri trwy arglawdd Tan Lan gan achosi llifogydd ar dir amaethyddol ac isel. Nodwyd difrod ar hyd rhan 3km o arglawdd Tan Lan yn Nyffryn Conwy, gan gynnwys toriad sylweddol a fesurai oddeutu 17m o hyd, 14m ar led a dyfnder o 5m. Cynhaliwyd arolygiad ac asesiad o'r toriad a pharatowyd adroddiad dewisiadau.

Mae'r profiad o gwblhau atgyweiriadau blaenorol ar yr arglawdd hwn wedi dangos bod angen cynnwys sawl ystyriaeth yn ein cynllun gwaith a chostau atgyweirio amcangyfrifedig ar gyfer y lleoliad hwn. O ganlyniad i raddfa unrhyw atgyweiriadau, byddai angen i unrhyw waith gael ei gynnal o dan y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) cyfredol (CDM 2015). Rhain yw'r rheoliadau ar gyfer rheoli iechyd, diogelwch a lles prosiectau adeiladu yr ydym yn gweithio'n unol â hwy.

Roedd ein hamcangyfrifon ar gyfer atgyweiriad llawn o'r toriad a difrod arall yn cynnwys cost y contractwyr i wneud y gwaith, cyrchu a chyflenwi 1700 tonnelli o glai a 300 tonnelli o ddeunydd uwchbridd i'r safle, a llogi'r peiriannau priodol i wneud y gwaith atgyweirio a chyfleusterau lles ar gyfer contractwyr. Yn ogystal â hyn, mae costau ychwanegol am fynediad dros dro i'r gwaith, ffioedd cysylltiedig â chroesi rheilffordd Dyffryn Conwy, a lwfans ar gyfer delio â materion asiantaeth tir a risg pe bai amodau tywydd neu dir yn

rhwystro'r contractwyr. Mae'r costau hyn, gan gynnwys y risgiau, yn gyfanswm o £150,000. Yn 2016 gwelwom doriad oedd ychydig yn fwy na'r hyn a gafwyd eleni – costiodd yr atgyweiriad hwnnw £220,000.

Ystyriaethau i'r dyfodol yn Nhan Lan

Mae gwyddoniaeth newid hinsawdd yn nodi tebygolrwydd cynyddol o stormydd a glaw trwm rheolaidd, yn ogystal â lefelau môr sy'n codi. Bydd toriad a difrod arglawdd Tan Lan, felly, yn parhau i fod yn broblem, o ystyried ei gyflwr sy'n dirywio a lefel cymharol isel. Rydym yn gweld difrod mwy cyson i'r arglawdd hwn ac wedi cofnodi o leiaf 11 toriad o raddfeydd amrywiol dros y blynyddoedd, gyda'r angen am ryw fath o atgyweiriad pob tro.

Rydym felly angen ystyried cynaliadwyedd tymor hirach i'r argloddiau hyn a'r rôl rheoli perygl llifogydd maent yn ei chwarae'n lleol.

Ar hyn o bryd mae arglawdd Tan Lan yn darparu diogelwch rhag llifogydd lefel isel iawn ar gyfer chwe chartref, busnesau lleol (gan gynnwys 49 carafán), tir amaethyddol, prif gefnffordd yr A470 a'r rheilffordd sy'n cysylltu cymunedau Dyffryn Conwy â'r brif linell yng Nghyffordd Llandudno.

Rydym yn ymgymryd ag astudiaeth hyfywedd i ddod o hyd i'r dewisiadau gorau ar gyfer dyfodol yr arglawdd, mewn perthynas â chymunedau lleol Maenan a Than Lan, gan ystyried yr effaith ar ardal ehangach Dyffryn Conwy.

Drwy'r astudiaeth hyfywedd hon rydym yn awyddus i weithio gyda'r gymuned a rhanddeiliaid ehangach, i archwilio cyfleoedd a chreu datrysiad rheoli llifogydd cynaliadwy. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ni archwilio gwelliannau i'r amgylchedd naturiol lleol.

Bydd yr astudiaeth yn ceisio nodi dewisiadau cynaliadwy ar gyfer rheoli'r arglawdd a pherygl llifogydd i'r cymunedau lleol. Gall y dewisiadau amrywio yn nodweddiadol o wella a chynnal yr arglawdd presennol drwy waith atgyweirio dros dro neu dymor hir; ail-alinio'r amddiffynfa rhag llifogydd; gadael yr arglawdd i ddirywio'n naturiol ac ail-gysylltu'r gorllifdir; darparu mesurau llifogydd lleol i eiddo; neu gyfuniad o'r uchod. Bydd pob dewis yn cael ei ystyried a'i arfarnu'n briodol gan ddefnyddio technegau a chanllawiau a osodir gan Drysorlys ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru

Bydd unrhyw benderfyniad am ddyfodol yr arglawdd hefyd yn ystyried Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli effaith dymor hir llifogydd llanwol ledled Cymru ac yn cynnwys Dyffryn Conwy i fyny at Faenan a Than Lan. Bydd angen i'r datrysiad hefyd sicrhau dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016).

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid drwy gydol yr astudiaeth. Ar ôl i ni gael y wybodaeth gychwynnol am yr

opsiynau rheoli llifogydd, byddwn yn cysylltu â'r gymuned leol yn y misoedd nesaf i drafod syniadau a deall blaenoriaethau a dyheadau lleol yn well, i helpu i lywio dyfodol y cynllun.

Yn y cyfamser, cewch ragor o wybodaeth ar dudalen we'r prosiect, y byddwn yn parhau i'w diweddarau wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen: [https://cyfoethnaturiol.cymru/tan-lan](https://cyfoethnaturiol.cymru/tan-<u>lan</u>)

Rhagfyr 2020

Atodiad: Trawsgrifiad sesiwn CCERA, 12fed o Dachwedd 2020

<https://cofnod.senedd.cymru/Committee/6524>